**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 30 Medi 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A M Day | S J Gallagher |
| D W Helliwell | B Hopkins | L James |
| S M Jones | M A Langstone | R V Smith |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Robert Smith | Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Damien Beech | Pennaeth yr Uned Cyfnod Cynradd |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): Dim

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

None

2 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

None

3 **Cofnodion**

Cafodd llythyrau a chofnodion eu hadolygu a'u derbyn gan y panel

4 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

5 **Sut ydyn ni'n gwella ysgolion yn Abertawe? (Sut mae Ymgynghorwyr Gwella Ysgolion yn cefnogi, yn gwerthuso ac yn monitro ysgolion yn Abertawe).**

Diolchodd y panel i'r Cynghorydd Robert Smith a Damien Beech am ddod i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad ar Wella Ysgolion ac ateb cwestiynau'r panel.

Roedd rhai o'r materion yr oedd yr adroddiad yn ymdrin â hwy yn cynnwys:

- Cyd-destun a chefndir y gwasanaeth
- Gwaith y Tîm Gwella Ysgolion a chymorth i ysgolion yng nghyfnod COVID-19
- Sut mae ysgolion yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion
- Cymorth parhad dysgu gan gynnwys rhannu arfer da a datblygu polisïau, dogfennau ac adnoddau ar gyfer ysgolion
- Dysgu proffesiynol ar gyfer staff addysgu ac ysgolion
- Cefnogi cyrff Llywodraethu a sesiwn hyfforddi barhaus, o bell.
- Parodrwydd ar gyfer y Fargen Ddinesig

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Gofynnodd y panel am y sefyllfa bresennol o ran cyrhaeddiad ysgolion cynradd. Mae'r panel eisoes wedi pryderu am lefelau cyrhaeddiad y disgyblion hynny sy'n derbyn PYDd. Gofynnwyd pryd y byddwn mewn sefyllfa i ganolbwyntio ar y mater hwn unwaith eto ar ôl COVID-19, ac edrych eto ar wella cyrhaeddiad PYDd? Roedd y panel yn falch o glywed bod dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwario'r Grant Datblygu Disgyblion, sy'n edrych ar yr hyn sy'n gweithio. Byddai gan y panel ddiddordeb mewn gweld, ar ryw adeg yn y dyfodol, wybodaeth am y gydberthynas rhwng sut y caiff y Grant Datblygu Disgyblion ei wario a chynyddu cyrhaeddiad. Clywodd y panel fod Llywodraeth Cymru, o ran mesur cyrhaeddiad, wedi cael gwared ar asesiadau athrawon y cyfnod sylfaen ac asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol dau sy'n beth da, ond mae angen datblygu ffordd newydd o fesur anghenion cyrhaeddiad. Yn y dyfodol, bydd trefniadau asesu yn cael eu cynnwys wrth gynllunio'r cwricwlwm newydd. Un cwestiwn da i Lywodraeth Cymru fydd sut y gallwn ni fel cyngor, neu yn wir fel gwlad, fesur a yw'r cwricwlwm newydd yng Nghymru yn cael yr effaith a ddymunir. Clywsant y bydd hwn yn gwestiwn parhaus y bydd angen i ni barhau i'w ofyn wrth i ysgolion ddatblygu'r broses asesu newydd honno.
- Clywodd y panel hefyd yn ystod y trafodaethau gydag ysgolion, ac yn enwedig yn ystod yr ymweliadau cefnogi ar gyfer tymor yr hydref hwn, y bydd cynghorwyr gwella ysgolion yn edrych ar ba mor dda y mae disgyblion yn gwneud. Canfuwyd yn ystod ymweliadau'r llynedd bod angen i rai o'u disgyblion ganolbwyntio ar y sgiliau sylfaenol, a dyma fydd yr achos eleni hefyd mwy na thebyg. Ond cyn hynny mae'n hanfodol eu bod yn canolbwyntio ar les disgyblion, os nad yw disgyblion yn hapus neu'n gyfforddus yn yr ysgol mae'n anodd dysgu.
- Gofynnodd y panel sut mae pethau'n gweithio o ran comisiynu Penaethiaid a pha fath o effaith y mae hyn yn ei chael ar yr ysgol yn eu rhyddhau. Clywsom fod y Penaethiaid a gomisiynwyd yn cofnodi eu dyddiau y tu allan i'r ysgol a bod yr ysgol yn cael ei thalu'n ariannol am y cyfnod hwnnw. Mae hyn wedyn yn rhoi cyfle i'r Dirprwy er enghraifft ddod allan o'r dosbarth a chael y profiad o redeg yr ysgol am ddiwrnod neu gyfres o ddyddiau. Mae'n ddatblygiad proffesiynol da i uwch-staff mewn ysgolion. Mae hefyd yn ddatblygiad proffesiynol da i'r penaethiaid gan eu bod yn ymweld ag ysgolion eraill a gweld gwahanol arferion. Dywedodd Aelod y Cabinet nad yw'n beth hawdd i'w wneud, ond mae'n rhoi cyfle i bobl eraill yn yr

ysgol ddatblygu'n broffesiynol. I ddatblygu'r sgiliau arwain hynny a gobeithio adeiladu ar y gronfa o dalent ac olyniaeth. Mae cynllunio olyniaeth mor bwysig.

- Gofynnwyd beth yw'r heriau allweddol i'r tîm dros y 12 mis nesaf wrth iddynt gefnogi ysgolion. Clywodd y panel fod COVID-19 yn dal i fod yn fater allweddol a chlywodd am y pwysau y mae ysgolion yn eu hwynebu gyda hyn, ac yna'r cydbwysedd â dyletswyddau o ddydd i ddydd. Y meysydd allweddol eraill yw cyflwyno'r cwricwlwm newydd a Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol. Clywodd y panel ei bod yn bwysig i'r Tîm Gwella Ysgolion sicrhau bod ysgolion yn symud ymlaen gyda phob un o'r rhain. Roedd y panel yn awyddus i weld bod ôl-lenwi a darpariaeth gyllideb gysylltiedig yn parhau fel y gellir diogelu'r effaith ariannol ar ysgolion o ryddhau Pennaeth a gomisiynwyd.

## 6 Cynllun Gwaith 2021-2022

Adolygodd y panel y Rhaglen Waith ac mae wedi gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am aflonyddu yn yr ysgol, a ohiriwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 pm

**Cadeirydd**